Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Clwb Gofal Llanddarog**

**Ysgol Llanddarog**
**Llanddarog**
**SA32 8BJ**

**This report is also available in English**

**Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



Adroddia ... ynol heb ei

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

13/9/2022

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chlwb Gofal Llanddarog

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd plant<br>Gofal y tu allan i oriau ysgol |
| Darparwr cofrestredig | Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyfyngedig |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 8 Mawrth 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

Am fwy o wybodaeth am sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn gyfforddus yn y lleoliad. Mae ganddynt ymrwymiadau hoffter cadarnhaol â’r staff gofal ac maent yn ffurfio cyfeillgarwch cryf â'u cyfoedion. Mae'r plant yn gwneud dewisiadau ac yn cymryd rhan yn y gweithgareddau sydd ar gael iddynt.

Mae polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith er mwyn diogelu a hyrwyddo llesiant y plant. Mae'r staff gofal yn darparu amgylchedd magwrol a gofalgar. Maent yn deall ac yn diwallu anghenion unigol y plant.

Gofelir am y plant mewn amgylchedd glân a diogel. Mae'r staff gofal wedi nodi a dileu risgiau diangen i'r plant cyn belled ag sy'n bosibl. Mae gan y plant fynediad at ddodrefn, cyfarpar, teganau a deunyddiau sy'n briodol ac yn addas i'w hanghenion. Mae dyluniad a chyflwr yr adnoddau’n addas ac maent yn cael eu cynnal a'u cadw’n dda.

Mae gan y bobl sy'n cynnal y lleoliad ddatganiad o ddiben clir sy'n disgrifio'r weledigaeth ar gyfer y lleoliad yn dda. Maen nhw'n mynd ati i gefnogi a herio pawb i wneud eu gorau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn prosesau recriwtio diogel a thrylwyr er mwyn sicrhau bod niferoedd diogel o staff gofal cymwysedig a phrofiadol ar gyfer yr ystod o blant y gofelir amdanynt.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae'r plant yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â sut maent yn treulio'u hamser yn y clwb a gallant osod eu cyfeiriad eu hunain wrth chwarae. Mae'r mwyafrif yn gofyn am gael chwarae yn yr awyr agored, a gwnânt hynny. Mae'r plant yn hyderus i ddechrau eu gweithgareddau chwarae eu hunain a gofyn am gymorth gan y staff gofal pan fo angen. Gwelsom blant yn chwarae pêl-droed mewn dau dîm bach ar yr iard. Mae ganddynt gysylltiadau agos ag oedolion cyfarwydd sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel ac wedi ymlacio. Mae bron pob un o'r plant yn hapus i gyd-chwarae a'i gilydd. Mae'n well gan rai plant chwarae ar eu pen eu hunain ac roedd hyn yn cael ei barchu.

Mae'r plant yn gwerthfawrogi eu hamser yn y lleoliad. Dywedodd nifer o blant wrthym eu bod yn mwynhau dod. Mae plant newydd yn ymgartrefu'n eithriadol o dda ac yn mwynhau darganfod yr hyn y gallant ei wneud. Mae gan y plant berthynas dda â'r staff gofal, ac maent yn sgwrsio gyda'i gilydd fel ffrindiau. Mae'r plant hŷn yn cefnogi'r plant iau a gwelsom ni nhw'n canmol y plant iau am liwio'n dda. Mae'r plant yn hyderus ac yn mwynhau sgwrsio â ni a gofyn am ein rolau.

Mae'r plant yn cael dewis o ystod dda o weithgareddau sy'n ysgogol a diddorol. Er enghraifft, gemau pêl, coginio, arlunio a lliwio, gemau bwrdd arbrofion gwyddoniaeth a gweithgareddau crefft. Roedd y plant yn golchi ac yn diheintio eu dwylo trwy gydol y sesiwn, yn ogystal â chyn amser byrbryd. Cymraeg yn unig a ddefnyddir yn y lleoliad.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae ystod dda o weithdrefnau iechyd a diogelwch priodol ar waith i sicrhau llesiant y plant. Mae'r holl staff gofal wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf, hylendid bwyd a diogelu. Mae'r staff gofal yn rhoi negeseuon diogelwch i'r plant er mwyn osgoi unrhyw ddamweiniau. Er enghraifft, gofyn i blentyn ofalu am blant eraill wrth iddo redeg o gwmpas yr iard. Mae'r staff gofal yn atgoffa'r plant am briodoldeb peidio â rhedeg dan do

Mae'r staff gofal yn rheoli rhyngweithiadau'r plant yn dda, gan helpu'r plant i gydweithio a dysgu sgiliau cymdeithasol. Mae'r staff gofal yn eistedd ac yn sgwrsio â'r plant, gan ymateb yn briodol i drafodaethau. Maent yn atgoffa plant iau i fod yn ystyriol a pharchu gwaith plant eraill. Maent yn cynnig canmoliaeth ac anogaeth serchus trwy gydol y sesiwn ac yn cysuro plant sydd wedi cynhyrfu. Mae'r staff gofal yn parchu'r plant sy'n chwarae'n hapus ar eu pen eu hunain ac eisiau eu gofod eu hunain. Fodd bynnag, maent yn cynnig y cyfle iddynt ymuno mewn gweithgareddau grŵp os ydynt yn dymuno.

Mae'r staff gofal yn diwallu anghenion unigol y plant gan eu bod yn eu hadnabod yn dda. Maent yn darparu awyrgylch meithringar a gofalgar ac yn rhoi gofal ymatebol, gan fod ganddynt wybodaeth y mae rhieni yn rhannu â nhw am y plant, ar lafar ac ar y ffurflenni cofrestru, ac am eu bod yn gweithredu ar yr wybodaeth hon.

Mae'r staff gofal yn hyrwyddo datblygiad y plant trwy gynllunio a darparu profiadau chwarae a dysgu da. Mae'r person â chyfrifoldeb yn cynllunio gweithgareddau wythnosol fel bod y plant yn gwybod beth fyddan nhw'n ei wneud. Fodd bynnag, mae'r rhain yn hyblyg os yw'r plant eisiau gwneud rhywbeth arall ar y diwrnod. Mae'r staff gofal yn rhoi adborth llafar yn glir i rieni pan gaiff y plant eu casglu.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Yr Amgylchedd | Da |
|---|---|

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn saff a chaiff y plant eu goruchwylio'n dda. Mae pob ardal, dan do ac yn yr awyr agored, yn rhydd rhag peryglon ac mae'r staff gofal yn cwblhau asesiadau risg yn ddyddiol. Mae pob ymwelydd yn mewngofnodi wrth gyrraedd ac ymadael. Mae'r staff gofal yn cofnodi'r amser pan fyddan nhw a'r plant yn cyrraedd pob dydd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd sy'n addas i blant. Y tu mewn, mae'r plant yn defnyddio cadeiriau, byrddau a dodrefn o faint addas. Gall y plant gael mynediad i offer ac adnoddau yn annibynnol. Gallant hefyd gael mynediad i ardal fawr yn yr awyr agored sef maes chwarae'r ysgol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn cael mynediad i ystod o adnoddau chwarae a dysgu o ansawdd da. Mae digon o weithgareddau a theganau ar gael i sicrhau bod y plant yn cael dewis diddorol. Dywedodd y staff gofal wrthym fod offer newydd wedi'u prynu eleni. Cedwir yr holl deganau a gemau'n lân ac mewn trefn dda a chânt eu storio ar uchder sy'n addas i'r plant. Mae'r cyfarpar a'r dodrefn yn addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n mynychu

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn hyrwyddo canlyniadau da i'r plant. Mae'r staff gofal yn dweud wrthym eu bod yn hapus ac yn cael eu cefnogi'n dda. Mae arferion cyson ar draws y lleoliad ac mae'r staff gofal yn gweithio'n dda fel tîm. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Mae ganddynt ddatganiad o ddiben wedi'i ddiweddaru sy'n adlewyrchu'r hyn sy'n cael ei gynnig.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn adnabod eu gwasanaeth yn dda. Mae'r staff gofal yn cadarnhau eu bod wedi cael profiad da yn ystod eu cyflogaeth, ac mae rhai wedi bod yno ers nifer o flynyddoedd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgynghori â'r plant a'r staff gofal fel rhan o'r broses werthuso ac maent yn cynllunio ymlaen llaw gyda'i gilydd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r staff gofal yn effeithiol trwy sesiynau goruchwylio a gwerthusiadau rheolaidd. Mae ffeiliau'r staff yn cynnwys yr holl ddogfennau ategol cywir ac mae gwiriadau cadarn wedi'u cynnal cyn cyflogi. Mae'r holl staff a gyflogir yn y gwasanaeth yn siarad Cymraeg.

Caiff y rhieni wybod am eu plentyn trwy adborth llafar. Dywedodd rhieni wrthym fod y gwasanaeth yn amhrisiadwy a bod eu plant yn mwynhau mynychu. Maent yn gofyn am fynychu hyd yn oed pan nad oes angen y gofal plant ar rieni.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Crynodeb o'r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Adr iad terfynol heb ei hoeddi

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae’n rhaid i’r darparwr gymryd camau brys i fynd i’r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae’n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio’r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo’r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio’r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |
| 37 (2) (b) | Diffyg cydymffurfio mewn perthynas ag addasrwydd y safle – anniogel rhag mynediad anawdurdodedig. | Cyflawnwyd |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi